
Amrywiaeth a Chynhwysiad mewn Darlledu – diweddarau sut mae Ofcom yn casglu data am y gweithlu

Cais am Fewnbwn

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 7 Ebrill 2022

Dyddiad Cau ar gyfer derbyn Ymatebion: 19 Mai 2022

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	2
2. Cefndir	3
3. Cais am Fewnbwn	5

Atodiadau

Atodiad 1. Arolwg gweithlu teledu amrywiaeth mewn darlledu 2021	22
Atodiad 2. Arolwg gweithu radio amrywiaeth mewn darlledu 2021	23
Atodiad 3. Ymateb i'r Cais am Fewnbwn hwn	Error! Bookmark not defined.
Atodiad 4. Egwyddorion ymgynghoriad Ofcom	27
Atodiad 5. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad	Error! Bookmark not defined.

1. Trosolwg

Cais am Fewnbwn i adolygu ein Harolygon Amrywiaeth yn y Gweithlu Darlledu

Mae cael gweithwyr sy'n cynrychioli ein cymdeithas yn helpu darlledwyr i greu rhaglenni teledu a radio arloesol, creadigol a dilys sy'n adlewyrchu bywydau a phrofiadau eu cynulleidfaoedd.

Mae gan Ofcom ddyletswydd gyfreithiol i hyrwyddo cyfle cyfartal yng ngweithluoedd darlledwyr. Gallwn ofyn i ddarlledwyr ddarparu gwybodaeth am eu polisiau cyfle cyfartal a chyfansoddiad eu staff.

Ers 2016 mae Ofcom wedi bod yn casglu'r wybodaeth hon gan ddarlledwyr drwy anfon arolygon blynyddol at ddarlledwyr.¹ Rydym yn gofyn am ddata meintiol ar gyfansoddiad pob gweithlu, a gwybodaeth ansoddol am bolisiau a mentrau sy'n ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiad.

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae ein rhaglen fonitro wedi arwain at fwy o dryloywder ac atebolrwydd ar draws y diwydiant. Mae ein gwaith wedi helpu darlledwyr i ddeall yn well pwy sy'n gweithio iddyn nhw a lle mae meysydd penodol y mae angen rhoi sylw iddynt. Mae'r data hwn wedi golygu ein bod wedi gallu taflu goleuni ar feysydd lle ceir tangynrychiolaeth yn y diwydiant a monitro cynnydd ymdrechion darlledwyr i wella cynrychiolaeth drwy eu gwaith amrywiaeth a chynhwysiad.

Rydym yn gwybod mwy nag erioed am gyfansoddiad y sector darlledu, ond mae bylchau o hyd yn ein gwybodaeth – lle rydym yn gofyn am wybodaeth yn wirfoddol (ee ynghylch cefndir economaidd-gymdeithasol), lle rydym yn gofyn cwestiynau mewn ffordd benodol (ee ynghylch rhyw/rhywedd) neu lle nad ydym yn gofyn unrhyw gwestiynau o gwbl eto (ee ynghylch lleoliad daearyddol).

Yn ein [Hadolygiad pum mlynedd](#) yn 2021 fe wnaethom gyhoeddi ein bod yn bwriadu adolygu'r data rydym yn ei gasglu gan ddarlledwyr. Wrth i agweddau cymdeithas at amrywiaeth a chynhwysiad ddatblygu, rhaid i Ofcom bwysu a mesur yn barhaus yr hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn ei wneud er mwyn cyflawni ein dyletswyddau yn y ffordd orau i hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl o bob cefndir.

Mae'r Cais hwn am Fewnbwn yn canolbwyntio ar adran feintiol yr arolwg data yn unig.

Ein nod yw casglu gwybodaeth sy'n ein helpu i gasglu data gwell a mwy cyflawn sy'n ein galluogi i gyflawni ein hamcanion i ganfod tangynrychiolaeth a monitro ymdrechion darlledwyr i gynyddu cynrychiolaeth. Mae pedwar maes ffocws i'r ddogfen hon:

1. A ydym yn gofyn y cwestiynau iawn yn y ffordd iawn i gyflawni ein hamcanion?
2. A ydym yn defnyddio'r iaith fwyaf priodol a chynhwysol yn ein cwestiynau?
3. A ydym yn casglu'r swm cywir o ddata i gyflawni ein hamcanion ac a oes meysydd data newydd y dylem eu casglu?
4. A ydym yn meincnodi'r data a gasglwn yn effeithiol i gyflawni ein hamcanion?

Y Cais hwn am Fewnbwn yw'r cam cyntaf yn y broses o ddiweddarau ein harolwg ac adolygu pa mor addas yw'r wybodaeth rydym yn ei chasglu. Byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau ac yn nodi ein cynlluniau yn yr Hydref.

2. Cefndir

Dull Ofcom o gasglu data am amrywiaeth

- 2.1 Bob blwyddyn, mae Ofcom yn casglu gwybodaeth gan ddarledwyr am amrywiaeth y bobl sy'n gweithio iddyn nhw. Dyma un ffordd rydym yn cyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf"), sy'n mynnu bod Ofcom yn cymryd camau sy'n briodol yn ei farn ef i hyrwyddo cyfle cyfartal mewn perthynas â chyflogaeth a hyfforddiant/ail-hyfforddiant gan y darledwyr teledu a radio rydym yn eu rheoleiddio, rhwng dynion a menywod (rhyw), pobl o grwpiau hil gwahanol ac ar gyfer pobl anabl.
- 2.2 Rhaid i Ofcom hefyd osod amodau trwydded sy'n mynnu bod darledwyr yn gwneud trefniadau ar gyfer hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a menywod, pobl o grwpiau hil gwahanol ac ar gyfer pobl anabl.² Wrth wneud hynny, rhaid i ddarledwyr ystyried [Canllawiau](#) sydd wedi cael eu cyhoeddi gan Ofcom.
- 2.3 Nid oes gan Ofcom bwerau o dan y Ddeddf i: osod a/neu orfodi cwotâu neu dargedau amrywiaeth y gweithlu; mynnu bod data'n cael ei ddarparu am y gweithlu darlledu llawrydd; rheoli neu orfodi cyllid wedi'i neilltuo neu gyllid y gellir cystadlu amdano; neu ddelio â chwynion sy'n ymwneud ag amrywiaeth y gweithlu.
- 2.4 Credwn ei bod yn hanfodol bod pobl o gefndiroedd amrywiol yn bresennol ac yn ffynnu ar bob lefel ym maes darlledu. Mae sector darlledu amrywiol a chynhwysol yn fwy na nod ynddo'i hun, mae hefyd yn elfen allweddol ar gyfer rhaglenni Teledu a Radio sy'n cynrychioli ac yn portreadu pob cynulleidfa mewn ffordd ddilys.³ Mae'n bwysig pwysu sy'n gwneud y rhaglenni rydym yn eu gwyllo ac yn gwrandao arnynt.
- 2.5 Dyna pam, yn ogystal â mynnu bod darledwyr yn darparu gwybodaeth i weithwyr am ryw, hil ac anabled, rydym hefyd yn gofyn am ddata ar rai o'r nodweddion gwarchoddedig eraill sydd wedi'u nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ("y Ddeddf Cydraddoldeb") ar sail wirfoddol. Ar hyn o bryd mae'r rhain yn cynnwys crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol ac oedran, yn ogystal â'r nodweddion gwarchoddedig hyn rydym yn holi am gefndir economaidd-gymdeithasol.
- 2.6 Drwy gasglu ac adrodd ar ddata meintiol ac ansoddol am amrywiaeth y gweithlu, ein nod yw:
- amlygu lle ceir tangynrychiolaeth yn y diwydiant gan ddatgelu'r rhwystrau sy'n llesteirio amrywiaeth a chydaddoldeb ym maes darlledu; a
 - monitro effeithiolrwydd cyffredinol strategaethau amrywiaeth a chynhwysiad darledwyr o ran chwalu'r rhwystrau hyn a gwella amrywiaeth a chynhwysiad yn y diwydiant.

² Mewn achosion o beidio â chydymffurfio ag amodau eu trwydded, gall Ofcom gymryd camau gorfodi yn erbyn darledwyr.

³ Mae ymchwil Ofcom yn dangos dro ar ôl tro pa mor bwysig yw hi bod cynulleidfaoedd yn gallu cysylltu â'r cymeriadau a'r personoliaethau maen nhw'n eu gwyllo neu'n gwrandao arnynt nhw

2.7 Ym mis Medi 2021, fe wnaethom gyhoeddi ein Hadolygiad pum mlynedd o amrywiaeth a chyfle cyfartal ym maes darlledu yn y DU. Fe wnaethom:

- sylwi, er ein bod yn gwybod mwy nag erioed am gyfansoddiad y sector darlledu, bod bylchau o hyd yn ein dealltwriaeth o feysydd lle mae darlledwyr yn darparu gwybodaeth i ni yn wirfoddol, fel crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, a chefnidir economaidd-gymdeithasol;
- tynnu sylw at feysydd lle nad ydym yn casglu data ar hyn o bryd ond ein bod yn credu y byddai'n ddefnyddiol gwneud hynny, fel lleoliad daearyddol, hunaniaeth rhywedd a data croestoriadol (lle gallai rhai nodweddion gwahanol ryngweithio'n sylweddol i leihau cyfle cyfartal, yn y ddogfen hon rydym yn galw hyn yn ddata 'trawstoriadol');
- ystyried ei bod hi'n bryd ailwerthuso'r data rydym yn ei gasglu a'r ffordd orau o'i gasglu ac adrodd arno; a
- dweud y byddem yn lansio'r Cais hwn am Fewnbwn, i lywio ein syniadau ynghylch y ffordd orau o ddiweddarau a gwella'r holiadur gweithlu meintiol rydym yn gofyn i ddarlledwyr ei lenwi.

3. Cais am Fewnbwn

Hyd a Lled

- 3.1 Pwrpas y Cais hwn am Fewnbwn yw casglu gwybodaeth gan randdeiliaid er mwyn datblygu adrannau meintiol ein [Holiadur Gweithlu Teledu](#) a'n [Holiadur Gweithlu Radio](#).
- 3.2 Cyn cyhoeddi'r Cais hwn am Fewnbwn, rydym wedi cael trafodaethau gydag amrywiaeth o randdeiliaid i helpu i ddatblygu ein syniadau ymhellach ar y meysydd i ganolbwyntio arnyn nhw er mwyn gwella ein prosesau casglu data. O'r herwydd, rydym yn gofyn am farn ar y canlynol:
- a yw'r cwestiynau rydym yn eu gofyn i ddarllledwyr yn rhoi'r data sydd ei angen arnom i gyflawni ein hamcanion (gweler 2.6);
 - a yw'r iaith a'r diffiniadau a ddefnyddiwn i gyfeirio at nodweddion amrywiaeth yn briodol ac yn gynhwysol;
 - hyd a lled y data rydym yn gofyn amdano gan ddarllledwyr, gan gynnwys lleoliadau daearyddol a data trawstoriadol; a
 - sut gallwn wella cysondeb a chynyddu gwerth y data a gasglwn ymhellach, drwy ailwerthuso ein meincnodau a chysoni ein holiadur â setiau data eraill.
- 3.3 Ar gyfer darllledwyr sy'n ateb y Cais hwn am Fewnbwn, rydym hefyd yn gofyn am wybodaeth ynghylch sut rydych chi'n casglu data gan eich gweithwyr ar hyn o bryd mewn perthynas â nodweddion penodol.
- 3.4 **Nid** yw'r Cais hwn am Fewnbwn yn cynnwys:
- adran ansoddol yr holiadur gweithlu;
 - sut mae Ofcom yn defnyddio data am y gweithlu i lywio penderfyniadau polisi;
 - a ddylai Ofcom fynnu bod darllledwyr yn rhoi cynlluniau neu fentrau amrywiaeth a chynhwysiad penodol ar waith;
 - casglu data sy'n ymwneud â gweithwyr llawrydd; na
 - [Chanllawiau](#) Ofcom ar Amrywiaeth ym maes Darlledu.

Diweddarau'r Iaith a'r Cwestiynau

Cyflwyniad

- 3.5 Yn yr Adolygiad pum mlynedd, fe wnaethom ddweud y byddem yn gofyn i randdeiliaid roi sylwadau ar y ffordd rydym yn gofyn cwestiynau am y nodweddion yn ein holiadur, gan gynnwys y derminoleg rydym yn ei defnyddio.
- 3.6 Gan mai un o'n prif amcanion yw canfod tangynrychiolaeth, mewn llawer o achosion un opsiwn clir yw ein bod yn dilyn y canllawiau presennol a ddarperir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ("ONS"). Cafodd llawer o ganllawiau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol eu

hadolygu'n ddiweddar er mwyn cyfrannu at Gyfrifiad 2021. Yn y gorffennol, rydym wedi defnyddio'r data sy'n cael ei gasglu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel "meincnod" neu bwynt cymharu mewn perthynas â phoblogaeth oed gweithio'r DU.⁴ Os byddwn yn gofyn cwestiynau yn yr un modd â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, bydd hi'n haws i ni gymharu gweithluoedd darlledwyr â'r boblogaeth yn fwy cyffredinol.

- 3.7 Ein nod yw defnyddio iaith briodol a chynhwysol yn ein harolygon. Credwn y gallai hyn gynyddu nifer y gweithwyr sy'n fodlon ateb cwestiynau a darparu data.

Rhyw a Rhywedd

Rydym yn gofyn i ddarlledwyr ddarparu data sy'n ymwneud â dynion a menywod, y mae modd ei fynegi hefyd fel 'rhyw'⁵. Ar hyn o bryd, nid ydym yn gofyn i ddarlledwyr ddarparu gwybodaeth feintiol am hunaniaeth rhywedd na'r nodwedd warchoddedig ailbennu rhywedd⁶. Bydd casglu data mwy cyflawn ar hunaniaeth rhywedd y gweithlu darlledu yn helpu Ofcom i amlygu lle ceir tangynrychiolaeth yn y diwydiant a chreu darlun o'r rhwystrau sy'n wynebu pobl â hunaniaethau rhywedd amrywiol.

- 3.8 Mae'n werth nodi, gan ein bod ond yn gallu mynnu bod darlledwyr yn darparu data am ryw, byddai'n rhaid i unrhyw ddata am hunaniaeth rhywedd gael ei roi'n wirfoddol.
- 3.9 Mae sawl ffordd y gallem gasglu data am ryw a rhywedd. Mae'n bwysig ein bod yn ystyried sut gallwn gysoni ein cwestiynau'n well er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cymharu â meincnodau allweddol, fel y Cyfrifiad. Mae canllawiau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer cwestiynau am ryw a hunaniaeth rhywedd yn argymhell y ddau gwestiwn canlynol:

Beth yw eich rhyw?

- Dyn
- Menyw

A yw'r rhywedd rydych chi'n uniaethu ag ef yr un fath â'ch rhyw a gofrestrwyd adeg eich geni?

- Ydy
- Nac ydy [Rhowch hunaniaeth rhywedd]⁷

⁴ Edrychwch ar adran 7 y ddogfen [Methodoleg](#) a oedd yn cyd-fynd â'n Hadolygiad Pum Mlynedd ar gyfer 2021, er enghraifft.

⁵Mae hyn oherwydd y ffordd y mynegir ein dyletswyddau cyfreithiol yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 sy'n cyfeirio at gyfle cyfartal rhwng dynion a menywod. Yn Neddf Cydraddoldeb 2010, dywedir bod y nodwedd warchoddedig 'rhyw' yn cyfeirio at y nodweddion o fod yn ddyn neu'n fenyw.

⁶ Mae Adran 7(1) o'r Ddeddf Cydraddoldeb yn datgan bod gan unigolyn y nodwedd warchoddedig o ailbennu rhywedd "os yw'r unigolyn yn bwriadu cyflawni, wrthi'n cyflawni neu wedi cyflawni proses (neu ran o broses) i ailbennu ei ryw drwy newid nodweddion ffisiolegol neu nodweddion eraill ei ryw".

⁷ Mae gwybodaeth am sut y datblygodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol y cwestiynau hyn ar gael [ar wefan yr ONS](#).

- 3.10 Rydym yn awyddus i glywed gan randdeiliaid am y ffordd orau o ofyn y cwestiynau hyn i sicrhau eu bod yn gynhwysol, yn cyd-fynd yn well â meincnodau perthnasol ac yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion.

Ffigur 1: Terminoleg gyfredol a ddefnyddir i gyfeirio at ryw a rhywedd fel y mae'n ymddangos yn holiadur y gweithlu

Adran C: Rhywedd

- a) Dyn
- b) Menyw
- c) Arall (e.e. rhyngrywiol, anneuaid)
- d) Well gan y cyflogai beidio â datgelu
- e) Data heb ei gasglu

Cwestiwn 1

- 1.a Ydych chi'n credu y dylai Ofcom newid y ffordd mae'n gofyn am ryw a rhywedd?
- 1.b Os ydych chi, sut ydych chi'n meddwl y dylem ni newid yr holiadur mewn perthynas â rhyw a rhywedd er mwyn adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?
- 1.c Os ydych chi'n ddarlledwr neu'n gorff arall sy'n casglu data, rhowch wybodaeth am y ffordd rydych chi'n gofyn cwestiynau am ryw a rhywedd ar hyn o bryd.

Cyfeiriadedd rhywiol

- a. Rydym yn gofyn i ddarlledwyr ddarparu gwybodaeth i Ofcom am gyfeiriadedd rhywiol yn wirfoddol.
- b. Wrth gyfeirio at gyfeiriadedd rhywiol, yn ein hadroddiadau monitro blynyddol hyd yma, rydym wedi defnyddio'r acronym "LGB" (Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol) yn lle "LGBT", "LGBTQ+" neu acronymau eraill o'r fath sy'n cwmpasu sbectrwm ehangach o rywioldebau a hunaniaethau. Mae ein rhesymeg dros ddefnyddio LGB yn seiliedig ar y diffiniad cyfreithiol o gyfeiriadedd rhywiol fel nodwedd warchoddedig yn y Ddeddf Cydraddoldeb. Rydym wedi defnyddio'r term hwn wrth fonitro gweithluoedd darlledwyr i sicrhau cysondeb yn ystod ein cyfnod adolygu cychwynnol o bum mlynedd.
- c. Rydym yn cydnabod bod cyfeiriadedd rhywiol yn cwmpasu mwy o rywioldebau na lesbiaidd, hoyw a deurywiol. Fel rhan o'n hadolygiad ehangach o'n holiadur gweithlu, rydym yn meddwl ei bod hi'n amser priodol i ailedrych ar y derminoleg rydym yn ei defnyddio ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol yn ein holiadur gweithlu.

- d. Sylwch ein bod yn bwriadu cofnodi hunaniaeth rhywedd o dan ryw a rhywedd yn ein holiadur gweithlu ac yn ein hadroddiadau monitro blynyddol (gweler ‘Rhyw a Rhywedd’, uchod). Rydym yn cydnabod bod hunaniaeth rhywedd a rhywioldeb yn aml yn cael eu cymryd gyda’i gilydd oherwydd hanesion cymhleth sy’n cael eu rhannu o fewn y gymuned LGBTQ+. Fodd bynnag, rydym yn gweld gwerth mewn gwahanu’r cwestiynau am rywedd a rhywioldeb at ddibenion yr arolwg hwn er mwyn i ni allu adrodd yn gywir ar dangynrychiolaeth gwahanol rannau o’r gymuned LGBTQ+ yn y byd darlledu.

Ffigur 2: Terminoleg gyfredol a ddefnyddir i gyfeirio at gyfeiriadedd rhywiol fel y mae’n ymddangos yn holiadur y gweithlu

Adran G: Cyfeiriadedd Rhywiol

- i. Heterorywiol/Strêt
- ii. Dynion hoyw
- iii. Menywod hoyw/Lesbiad
- iv. Deurywiol
- v. Cyfeiriadedd rhywiol arall

Cwestiwn 2

- 2.a Ydych chi’n credu y dylai Ofcom newid y ffordd mae’n gofyn am gyfeiriadedd rhywiol?
- 2.b Os ydych chi, sut ydych chi’n meddwl y dylem ni newid yr holiadur mewn perthynas â chyfeiriadedd rhywiol er mwyn adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?
- 2.c Os ydych chi’n ddarlledwr neu’n gorff arall sy’n casglu data, rhowch wybodaeth am y ffordd rydych chi’n gofyn cwestiynau am gyfeiriadedd rhywiol ar hyn o bryd.

Hil ac ethnigrwydd

- e. Mae’n rhaid i ddarlledwyr ddarparu gwybodaeth i Ofcom mewn perthynas â hil ac ethnigrwydd eu gweithwyr.⁸

⁸ Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu ein bod yn hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl o wahanol grwpiau hil. Mae “grwpiau hil” yn cael eu diffinio yn adran 9 o’r Ddeddf Cydraddoldeb neu yn achos Gogledd Iwerddon yng Nghorhymyn Cysylltiadau Hiliol (Gogledd Iwerddon) 1997

- f. Roedd papur diweddar gan Ganolfan Lenny Henry⁹ yn beirniadu'r defnydd helaeth o'r acronym 'BAME' (yn odli gyda'r gair Saesneg 'name') ac fe arweiniodd hynny at ymrwymiad cyhoeddus gan lawer o ddarlledwyr i osgoi defnyddio'r term. Ers i ni ddechrau ein gwaith Amrywiaeth mewn Darlledu yn 2017, nid ydym wedi defnyddio'r acronym 'BAME' yn ein hadroddiadau, gan ddewis y term M.E.G yn lle hynny. (Minority Ethnic Group). Fodd bynnag, rydym yn cydnabod, lle bo modd, ei bod yn well peidio â defnyddio acronym cyfunol o gwbl gan nad yw hyn yn gwahaniaethu rhwng profiadau amrywiol pobl o wahanol hiliau/ethnigrwydd.
- g. Er nad ydym yn defnyddio'r term 'BAME' yn ein hadroddiadau, mae'n dal i gael ei ddefnyddio yn holiadur y gweithlu fel opsiwn ar ôl i ni restru nifer o opsiynau mwy penodol, fel y gwelir yn Ffigur 3. Rydym yn defnyddio term cyfunol yn yr arolwg i sicrhau bod opsiwn ar gael i'r bobl hynny y byddai'n well ganddynt beidio â datgelu manylion eu hethnigrwydd. Mae hefyd yn cael ei ddefnyddio i alluogi darlledwyr llai nad ydynt yn casglu data manwl i lenwi'r adran. Hoffem glywed gan randdeiliaid ynghylch a ddylem barhau i gynnwys unrhyw derm cyfunol ochr yn ochr â'r opsiynau penodol, ac os felly, a ddylai'r term hwnnw fod yn B.A.M.E., M.E.G. neu'n derminoleg arall.
- h. Gallem newid y ffordd rydym yn gofyn am ddata ar hil ac ethnigrwydd. Er enghraifft, gallem ychwanegu mwy o ddewisiadau (fel cenedligrwydd) at y rhestr i sicrhau ein bod yn cofnodi amrywiaeth cefndiroedd yn gywir er mwyn canfod y grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Gallai hyn hefyd sicrhau bod pobl yn fwy tebygol o adnabod eu hunain yn yr opsiynau a darparu'r data hyn. Wrth wneud hyn, byddai angen i ni ystyried sut gallem feincnodi'r data hwn yn effeithiol yn erbyn ystadegau poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn cyflawni ein nod o ddeall lle mae tangynrychiolaeth yn y diwydiant.

Ffigur 3: Grwpiau cyfredol a ddefnyddir i gyfeirio at grwpiau hil gwahanol fel y maen nhw'n ymddangos yn holiadur y gweithlu

Adran D: Grŵp Hil

1) Gwyn:

- i. Cymreig / Seisnig / Albanaidd / Gwyddelig G.I. / Prydeinig
- ii. Gwyddelig
- iii. Canol neu Ddwyrain Ewropeaidd
- iv. Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig

v. Cefndir gwyn arall

2) Dwyrain Asiaidd / Dwyrain Asiaidd Prydeinig:

⁹ Canolfan Syr Lenny Henry. [BAME: A report on the use of the term and responses to it. Terminology Review for the BBC and Creative Industries.](#)

- a) Tsieineaidd
 - b) Unrhyw gefndir Dwyrain Asiaidd arall
- 3) De Asiaidd / De Asiaidd Prydeinig:
- a) Indiaidd
 - b) Pacistanaidd
 - c) Bangladeshaidd
 - d) Cefndir De Asiaidd arall
- 4) Du / Affricanaidd / Caribiaidd / Du Prydeinig:
- a) Affricanaidd
 - b) Caribiaidd
 - c) Cefndir Du / Affricanaidd / Caribiaidd arall
- 5) Cymysg:
- a) Gwyn a Du Caribiaidd
 - b) Gwyn a Du Affricanaidd
 - c) Gwyn ac Asiaidd
 - d) Cefndir cymysg / aml-hiliol arall
- 6) Arall:
- a) O'r Dwyrain Canol, yn cynnwys tarddiad Arabaidd
 - b) Grŵp ethnig arall
 - c) Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig (BAME)
 - d) Well gan y cyflogai beidio â datgelu
 - e) Data heb ei gasglu

Cwestiwn 3

- 3.a Ydych chi'n credu y dylai Ofcom newid y ffordd mae'n gofyn am hil ac ethnigrwydd?
- 3.b Os ydych chi, sut ydych chi'n meddwl y dylem ni newid yr holiadur mewn perthynas â hil ac ethnigrwydd er mwyn adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?
- 3.c Os ydych chi'n ddarlledwr neu'n gorff arall sy'n casglu data, rhowch wybodaeth am y ffordd rydych chi'n gofyn cwestiynau am hil ac ethnigrwydd.

Anabledd

- i. Mae'n rhaid i ddarlledwyr ddarparu gwybodaeth i Ofcom am eu gweithwyr mewn perthynas ag anabledd.
- j. Er bod y diwydiant wedi gwneud cynnydd sylweddol ers 2017/18 o ran casglu gwybodaeth gan weithwyr am anabledd, mae Ofcom yn cydnabod bod problemau'n parhau o ran casglu data am anabledd ac y gellid helpu hyn petai Ofcom yn gofyn i ddarlledwyr ofyn cwestiynau gwahanol i'w gweithwyr. Mae'n bosibl y bydd nifer o weithwyr yn dewis peidio â dweud eu bod yn anabl. Gallai hyn fod oherwydd nad ydynt yn ystyried eu hunain yn anabl er bod ganddynt gyflwr a fyddai'n cael ei ystyried yn nam gan y Ddeddf Cydraddoldeb¹⁰ neu oherwydd eu bod yn teimlo'n anghyfforddus am ddweud wrth eu cyflogwr bod cyflwr arnynt.
- k. Ar hyn o bryd, mae ein holiadur gweithlu yn nodi rhestr o fathau o anabledd (neu ddim anabledd). Rydym yn gwybod y gellir ystyried nad yw'r dull gweithredu hwn yn helpu gan ei fod yn canolbwyntio ar anabledd fel nodwedd sy'n gynhenid i'r unigolyn (a elwir yn 'fodel meddygol' o anabledd) yn hytrach na nodwedd o'r ffordd y mae trefn ei amgylchedd / cymdeithas yn amharu'n ymarferol ar yr unigolyn (y 'model cymdeithasol'). Rydym yn deall bod rhai pobl yn teimlo bod y model cymdeithasol yn fwy defnyddiol gan ei fod yn canolbwyntio ar adnabod a chwalu rhwystrau. Er enghraifft, nodwn fod yr elusen Scope wedi mabwysiadu'r model cymdeithasol er mwyn deall anabledd yn ei Strategaeth Cydraddoldeb Pob Dydd.¹¹
- l. Rydym hefyd yn cydnabod ei bod hi'n bosibl i bobl sydd ag 'yr un math' o anabledd fod ag anghenion a phrofiadau gwahanol iawn yn y gweithle. Fodd bynnag, efallai y byddai'n werth cadw'r cwestiynau hyn er mwyn canfod gwahaniaethau cyffredinol yn y rhwystrau y mae gwahanol bobl yn eu hwynebu. Byddem yn gwerthfawrogi barn ynghylch a ddylid diwygio ein cwestiwn i gyflwyno 'grwpiau' gwahanol, er enghraifft yn unol â'r safon gyson ar gyfer cwestiynau am amhariad a gynhrychir gan Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth.¹²
- m. Yn ein Hadolygiad pum mlynedd, roeddem wedi cyfeirio at y dull roedd y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi'i ddefnyddio yn y cyfrifiad diweddaraf,¹³ sy'n cynnwys holi am salwch a chyflyrau hirdymor ac i ba raddau roedd y rhain yn amharu ar allu rhywun i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd. Yn ein harolwg, gallem ofyn cwestiwn fel hyn yn hytrach nag yn ychwanegol at ein cwestiwn presennol (neu amrywiad ohono) a byddem yn gwerthfawrogi barn rhanddeiliaid.

¹⁰ Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan bod gan unigolyn anabledd os oes ganddo nam corfforol neu feddyliol, a bod y nam yn cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau beunyddiol arferol.

¹¹ Gweler erthygl Scope ['Social model of disability'](#).

¹² Gwasanaeth Ystadegol Llywodraeth y DU. [Impairment harmonised standard](#).

¹³ Gwasanaeth Ystadegol Llywodraeth y DU. [Measuring disability for the Equality Act 2010 harmonisation guidance](#).

Ffigur 4: Terminoleg gyfredol a ddefnyddir i gyfeirio at anabledd fel y mae'n ymddangos yn holiadur y gweithlu

Adran E: Anabledd

- a) Dim anabledd
- b) Anabledd synhwyraidd (ee nam ar y golwg/clyw)
- c) Anabledd corfforol / Cyhyrsgerbydol (gan gynnwys cydsymud, deheurwydd, symudedd, defnyddiwr cadair olwyn)
- d) Iechyd Meddwl (gan gynnwys iselder difrifol, deubegynedd)
- e) Anableddau dysgu / gwybyddol (gan gynnwys dyslecsia, Syndrom Down, awtistiaeth)
- f) Anabledd / cyflwr lluosog, hirdymor neu arall (Mae hyn yn cynnwys cyflyrau fel diabetes, epilepsi, arthritis, asthma, nam ar y lleferydd, anffurfiadau ar yr wyneb)
- g) Ag anabledd
- h) Well gan y cyflogai beidio â datgelu
- i) Data heb ei gasglu

Cwestiwn 4

- 4.a Ydych chi'n credu y dylai Ofcom newid y ffordd mae'n holi am anabledd?
- 4.b Os ydych chi, sut ydych chi'n meddwl y dylem ni newid yr holiadur mewn perthynas ag anabledd er mwyn adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?
- 4.c Os ydych chi'n ddarlledwr neu'n gorff arall sy'n casglu data, rhowch wybodaeth am y ffordd rydych chi'n gofyn cwestiynau am anabledd ar hyn o bryd.

Cefndir economaidd-gymdeithasol

- n. Er nad yw wedi'i restru fel nodwedd warchoddedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, rydym yn cydnabod bod deall cefndir economaidd-gymdeithasol gweithluoedd darlledwyr yn hanfodol er mwyn deall y rhwystrau i gyfleoedd y mae rhai yn eu hwynebu wrth ymuno â'r diwydiant neu wrth symud ymlaen yn y diwydiant. Fodd bynnag, fel y dywedasom yn yr Adolygiad pum mlynedd, dim ond ychydig o ddata gweladwy¹⁴ rydym yn ei gael ar hyn o bryd (ar draws darlledwyr teledu a radio) am gefndir economaidd-gymdeithasol staff.

¹⁴ Mae 'data gweladwy' yn ddata mae cyflogwr wedi gofyn amdano gan weithiwr; y mae gweithiwr wedi'i ddatgelu i'w gyflogwr; a bod y gweithiwr wedi rhoi caniatâd i'w rannu ag Ofcom.

- o. Yn adran I ein holiadur gweithlu, rydym yn gofyn i ddarlledwyr ddarparu gwybodaeth am bedair agwedd ar gefndir economaidd-gymdeithasol eu gweithwyr:¹⁵
1. Galwedigaeth prif enillydd yr aelwyd pan roedd y gweithiwr yn 14 oed;
 2. Y math o ysgol y bu'r gweithiwr yn ei mynychu am y rhan fwyaf o'r cyfnod pan roedd rhwng 11 ac 16 oed;
 3. Y cymhwyster lefel uchaf a enillwyd gan y naill riant neu warcheidwad neu'r llall erbyn i'r gweithiwr fod yn 18 oed; a
 4. A oedd y gweithiwr yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim unrhyw bryd yn ystod ei flynyddoedd ysgol.
- p. Mae'r cwestiynau rydym yn eu defnyddio ar hyn o bryd i gasglu gwybodaeth am gefndir economaidd-gymdeithasol yn debyg i becyn cymorth y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol ar gyfer diwydiannau.¹⁶ Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd yn adroddiad ategol y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol¹⁷, rydym yn ymwybodol bod nifer o gyfyngiadau'n perthyn i'r dull gweithredu hwn. Er enghraifft, mae'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol o'r farn nad yw'r cwestiynau sy'n gofyn am wybodaeth am y cymhwyster uchaf sydd gan rieni yn adlewyrchu'r ffaith efallai fod y rhiant wedi cael bwrsari i fynd i addysg uwch neu eu bod wedi cael y cymhwyster yn ddiweddarach mewn bywyd.¹⁸
- q. Er mwyn gwneud i'r data rydym yn ei gasglu yn y maes hwn fod yn ehangach ac er mwyn cael rhagor ohono, rydym yn croesawu safbwyntiau ar y dulliau y bydden ni'n gallu eu defnyddio i helpu i ganfod cefndir economaidd-gymdeithasol gweithwyr darlledwyr ac i adlewyrchu'r ffordd maen nhw'n meddwl ar hyn o bryd yn y maes hwn.
- r. Yn yr un modd â mewn meysydd eraill, cyn belled ag y bo modd, rydym yn anelu at gwestiynau a fydd yn golygu ein bod yn gallu cymharu gweithwyr darlledwyr â'r boblogaeth waith gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd ar gael am y boblogaeth yn edrych ar y **statws** economaidd-gymdeithasol presennol (ee galwedigaeth) yn hytrach na'r **cefndir** economaidd-gymdeithasol (ee galwedigaeth rhieni). Byddem yn croesawu safbwyntiau ynghylch a ydym yn gofyn ein cwestiynau mewn ffordd ddefnyddiol i gyflawni ein hamcan o fonitro tangynrychiolaeth, a allai awgrymu lle gallai rhwystrau rhag mynediad a dilyniant fodoli.

¹⁵ Gweler Atodiad I i weld dadansoddiad llawn o'r grwpiau economaidd-gymdeithasol rydym yn eu defnyddio yn ein holiadur gweithlu.

¹⁶ Y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol. (2020). ['Social Mobility Commission's cross-industry toolkit'](#)

¹⁷ Y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol. (2021). ['Simplifying how employers measure socio-economic background: An accompanying report to new guidance'](#)

¹⁸ Y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol. (2021). ['Simplifying how employers measure socio-economic background: An accompanying report to new guidance'](#)

Ffigur 5: Terminoleg gyfredol a ddefnyddir i gyfeirio at gefndir economaidd-gymdeithasol fel y mae'n ymddangos yn holiadur y gweithlu

Adran I: Cefndir economaidd-gymdeithasol

I1: Galwedigaeth prif enillydd yr aelwyd pan roedd y gweithiwr yn 14 oed.

- i. Galwedigaethau proffesiynol modern (fel athro, nyrs, ffisiotherapydd, gweithiwr cymdeithasol, cerddor, swyddog heddlu [ringyll neu uwch], dylunydd meddalwedd).
- ii. Galwedigaethau canolradd a chlercol (fel ysgrifennydd, cynorthwydd personol, gweithiwr clercol, asiant canolfan alwadau, nyrs meithrinfa).
- iii. Uwch reolwyr neu weinyddwyr – fel arfer yn gyfrifol am gynllunio, trefnu a chydlynu gwaith, a/neu gyllid (fel rheolwr cyllid, prif weithredwr).
- iv. Galwedigaethau technegol neu grefft (fel mecanig moduron, plymwr, argraffydd, trydanwr, garddwr, gyrrwr trên).
- v. Galwedigaethau gwaith llaw a gwasanaeth lled-ailadroddus (fel gweithiwr post, gweithredwr peiriant, swyddog diogelwch, gofalwr, gweithiwr fferm, cynorthwydd arlwygo, cynorthwydd gwerthu).
- vi. Galwedigaethau gwaith llaw a gwasanaeth ailadroddus (fel gyrrwr HGV, porthor glanhawr, paciwr, labrwr, gweinydd, staff bar).
- vii. Rheolwyr canol neu iau (fel rheolwr swyddfa, rheolwr cadw, rheolwr banc, rheolwr bwyty, warws).
- viii. Galwedigaethau proffesiynol traddodiadol (fel cyfrifydd, cyfreithiwr, ymarferydd meddygol, gwyddonydd, peiriannydd mecanyddol / sifil).
- ix. Di-waith tymor hir (wedi hawlio Lwfans Ceisio Gwaith neu fudd-dal diweithdra cynharach am fwy na blwyddyn).
- x. Anweithgar (gan gynnwys y rheini a oedd wedi ymddeol).
- xi. Ddim yn gwybod / amherthnasol
- xii. Well gan y cyflogai beidio â datgelu
- xiii. Data wedi'i gasglu ond dim caniatâd i'w ddarparu i Ofcom
- xiv. Data heb ei gasglu

I2: Pa fath o ysgol y bu'r gweithiwr yn ei mynychu am y rhan fwyaf o'r cyfnod pan roedd rhwng 11 ac 16 oed.

- a) Ysgol wladol neu ysgol sy'n derbyn arian gwladol - yn dethol ar sail academaidd, ffydd neu sail arall
- b) Ysgol wladol neu ysgol sy'n derbyn arian gwladol - ddim yn dethol

- c) Ysgol annibynnol neu ysgol sy'n codi ffi - bwrsari
- d) Ysgol annibynnol neu ysgol sy'n codi ffi - dim bwrsari
- e) Ysgol y tu allan i'r Deyrnas Unedig
- f) Ddim yn gwybod
- g) Well gan y cyflogai beidio â datgelu
- h) Data wedi'i gasglu ond dim caniatâd i'w ddarparu i Ofcom
- i) Data heb ei gasglu

13: Y cymhwyster lefel uchaf a enillwyd gan y naill riant neu warcheidwad neu'r llall erbyn i'r gweithiwr fod yn 18 oed.

- a) Gradd neu lefel sy'n cyfateb i radd neu uwch (ee gradd gyntaf neu radd uwch, diplomâu ôl-radd, NVQ/SVQ, lefel 4 neu 5 ayb)
- b) Cymwysterau sy'n is na lefel gradd (ee Safon Uwch, SCE Uwch, Lefel O, SCE Safonol / Arferol, NVQ/SVQ, BTEC ayb)
- c) Dim cymwysterau
- d) Ddim yn gwybod
- e) Well gan y cyflogai beidio â datgelu
- f) Data wedi'i gasglu ond dim caniatâd i'w ddarparu i Ofcom
- g) Data heb ei gasglu

14: A oedd y gweithiwr yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim unrhyw bryd yn ystod ei flynyddoedd ysgol.

- a) Oedd
- b) Nac oedd
- c) Amherthnasol (wedi gorffen yr ysgol cyn 1980 neu wedi mynd i ysgol dramor)
- d) Well gan y cyflogai beidio â datgelu
- e) Data wedi'i gasglu ond dim caniatâd i'w ddarparu i Ofcom
- f) Data heb ei gasglu

Cwestiwn 5

5.a Ydych chi'n credu y dylai Ofcom newid y ffordd mae'n gofyn am wybodaeth am gefnir economaidd-gymdeithasol?

5.b	Os ydych chi, sut ydych chi'n meddwl y dylem ni newid yr holiadur mewn perthynas â chefnidir economaidd-gymdeithasol er mwyn adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?
5.c	Os ydych chi'n ddarlledwr neu'n gorff arall sy'n casglu data, rhowch wybodaeth am y ffordd rydych chi'n gofyn cwestiynau am gefndir economaidd-gymdeithasol.

Teitlau a grwpiau swyddi

- s. Ein hamcan yn y maes hwn yw cael dealltwriaeth fanylach o'r cyfle i symud ymlaen drwy sefydliadau o rolau nad ydynt yn rhai rheoli i rolau sy'n golygu gwneud penderfyniadau uwch. Mae gennym ddi-ddordeb arbennig mewn cael dealltwriaeth ddyfnach o'r rheini sydd â swyddi uwch sy'n aml â mwy o ddylanwad dros recriwtio a'r cynnwys a ddarlledir i gynulleidfaoedd. Mae gallu adlewyrchu grwpiau teitlau a lefelau swyddi mewn cwmnïau'n gallu ein helpu i adnabod pa grwpiau o weithwyr yng ngweithlu darlledwr sy'n cael eu tangynrychioli a deall lle gallai rhwystrau rhag cynnydd fodoli.
- t. Ar hyn o bryd, rydym yn casglu data am weithwyr mewn gwahanol feysydd swyddi a lefel swyddi staff. Fel mae Ffigur 5 yn ei ddangos, ar hyn o bryd rydym yn rhannu grwpiau teitlau swyddi yn dri chategori: uwch reolwyr, rheolwyr iau/canol, a'r rheini nad ydynt yn rheolwyr. Rydym nawr yn ystyried sut gallem ailwerthuso'r grwpiau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer teitlau a lefelau swyddi er mwyn cael mwy o dryloywder a dealltwriaeth well o statws a dylanwad yn sefydliadau'r darlledwyr.
- u. Yn ein Hadolygiad pum mlynedd, roeddem wedi dweud y byddem yn edrych ar gynnwys dull mwy manwl o ddelio â data am ddyrchafiadau. Byddem yn croesawu barn ar rinweddau ychwanegu manylion at y cwestiwn ar ddyrchafiadau i ganfod pwy sy'n cael ei ddyrchafu i rolau uwch reolwyr.
- v. Rydym yn ymwybodol bod rhai darlledwyr yn ei chael hi'n anodd mapio grwpiau a theitlau swyddi yn eu sefydliadau i'r grwpiau swyddi sy'n cael eu rhestru yn ein holiadur. Byddem yn croesawu safbwyntiau ar sut gallem newid y rhain er mwyn adlewyrchu realiti'r mathau o swyddi a swyddogaethau ym maes darlledu yn well. Mae'n bwysig ein bod yn gallu mapio data amrywiaeth yn gywir i swyddogaethau swyddi er mwyn i ni allu deall yn well a oes tangynrychiolaeth mewn rhai mathau o swyddi yn y diwydiant.

Ffigur 6: Gwybodaeth am grwpiau rôl swyddi a gwybodaeth am y rheini sy'n ymuno ac yn gadael sydd wedi'i chynnwys yn yr arolwg gweithlu ar hyn o bryd

Ar gyfer Teledu a Radio

1. Gweithwyr yn y DU a ymunodd â'ch sefydliad rhwng DYDDIAD a DYDDIAD

2. Gweithwyr yn y DU a adawodd eich sefydliad rhwng DYDDIAD a DYDDIAD
3. Gweithwyr yn y DU a gwblhaodd hyfforddiant datblygu rhwng DYDDIAD a DYDDIAD
4. Gweithwyr yn y DU a gafodd ddirchafiad rhwng DYDDIAD a DYDDIAD
5. Gweithwyr yn y DU ar lefel uwch reolwyr
6. Gweithwyr yn y DU ar lefel rheolwyr iau / canol
7. Gweithwyr yn y DU ar lefel heb fod yn rheolwyr

Ar gyfer Teledu

8. Gweithwyr yn y DU mewn rôl rheoli ym maes darlledu
9. Gweithwyr yn y DU mewn rôl gweinyddu a rheoli busnes
10. Gweithwyr yn y DU mewn rôl sefydliadol, dechnegol, peirianeg a dadansoddi data
11. Gweithwyr yn y DU mewn rôl gwerthu a marchnata
12. Gweithwyr yn y DU mewn rôl greadigol a chynnwys
13. Gweithwyr yn y DU mewn rôl newyddiaduraeth
14. Gweithwyr yn y DU mewn rôl talent ar y sgrin

Ar gyfer Radio

15. Gweithwyr yn y DU mewn rôl rhaglenni / rhaglennu
16. Gweithwyr yn y DU mewn rôl newyddiaduraeth / newyddion
17. Gweithwyr yn y DU mewn rôl dechnegol / peirianeg
18. Gweithwyr yn y DU mewn rôl gwerthu
19. Gweithwyr yn y DU mewn rôl marchnata / y wasg / cysylltiadau cyhoeddus
20. Gweithwyr yn y DU mewn rôl weinyddol / swyddogaethau cefnogi

Cwestiwn 6

- 6.a Ydych chi'n credu y dylai Ofcom newid y ffordd mae'n gofyn am brofiad rheoli a dyrchafiadau?
- 6.b Os ydych chi, sut ydych chi'n meddwl y dylem ni newid yr holiadur mewn perthynas â phrofiad rheoli a dyrchafiadau er mwyn adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?
- 6.c Ydych chi'n credu y dylai Ofcom newid y grwpiau swyddogaethau swyddi yn yr holiadur gweithlu?

6.d Os ydych chi, sut ydych chi'n meddwl y dylem ni newid ein holiadur mewn perthynas â grwpiau swyddogaethau swyddi er mwyn ein helpu i adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?

6.e Os ydych chi'n ddarlledwr neu'n gorff arall sy'n casglu data, rhwch wybodaeth am y ffordd rydych chi'n dosbarthu mathau o swyddi / lefel swyddi / dyrchafiadau ar hyn o bryd.

Casglu data yn ehangach

Data amrywiaeth ar gyfer y Gwledydd a'r Rhanbarthau

- w. Mae arnom eisiau cael dealltwriaeth well o'r gynrychiolaeth o'r nodweddion gwarchoddedig (a chefnidir economaidd-gymdeithasol) ar draws rhanbarthau a gwledydd y DU. Rydym yn gweld gwerth mewn nodi sut mae amrywiaeth gweithluoedd yn cymharu â data poblogaeth sy'n benodol i ranbarth, er mwyn i ni allu deall yn well a ydy darlledwyr yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau maen nhw'n gweithredu ynddynt.
- x. Rydym yn awyddus i glywed gan randdeiliaid am y ffordd orau o gasglu data daearyddol er mwyn cyflawni ein hamcanion. Er bod gan y rhan fwyaf o staff darlledwyr sydd â nifer o swyddfeydd yn y DU ganolfan y maent yn cael eu neilltuo iddi, mae newid patrymau gwaith ers y pandemig yn golygu nad yw llawer o bobl yn mynd i'w swyddfa ddynodedig mwyach ac efallai eu bod yn byw filltiroedd i ffwrdd. Mae angen i ni ystyried a yw gofyn am ddata amrywiaeth fesul canolfan yn ffordd effeithiol o ddeall a yw staff yn cynrychioli'r gymuned lle mae'r ganolfan honno wedi'i lleoli. Mantais casglu data fesul canolfan yw y byddai'n tynnu sylw at i ba raddau mae darlledwyr yn mynd i'r afael â thangynrychiolaeth yn eu gweithluoedd ar draws y DU. Er enghraifft, os yw darlledwr yn cyrraedd targedau yn ei swyddfa ym Manceinion ond ddim yn ei swyddfa yng Nghaerdydd, gallwn ei annog i asesu pam y gallai hyn fod yn wir a sut gallai fod angen iddo amrywio'r dull o recriwtio a chadw staff mewn gwahanol fannau.
- y. Neu, gallem ofyn am ddata ynghylch lle mae'r staff yn byw. Gallem ofyn i ddarlledwyr gyfuno data cod post gweithwyr yn rhanbarthau er mwyn i ni allu edrych ar amrywiaeth gweithluoedd darlledwyr ar draws y diwydiant yn ôl rhanbarth, o'i gymharu â data'r boblogaeth ar gyfer yr ardal honno. Mae manteision i gasglu data fel hyn i sefydliadau sydd â dull hyblyg o weithio yn y cartref ac yn y swyddfa, er enghraifft, efallai y bydd rhai staff yn gweithio sawl diwrnod y mis mewn dwy swyddfa ac yn y cartref. Gall defnyddio data cod post roi'r data mwyaf defnyddiol a sefydlog i ni wrth i ffyrdd o weithio newid mewn ffyrdd na allwn ragweld bob amser. Byddem yn croesawu sylwadau ar y pwnc hwn.

7.a A ddylai Ofcom gasglu data amrywiaeth yn ôl gwlad a rhanbarth?

7.b Os dylai, sut dylem ni ofyn y cwestiwn hwn er mwyn ein helpu i adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?

7.c Os ydych chi'n ddarlledwr, rhowch wybodaeth am y data rydych chi'n ei gasglu ar hyn o bryd am leoliad daearyddol eich gweithlu.

Data trawstoriadol

- z. Yn argymhellion ein Hadolygiad pum mlynedd i ddarlledwyr, roeddem wedi nodi bod angen i'r diwydiant ddarparu data croestoriadol i Ofcom, er mwyn ein helpu i ddeall sut mae anfantais yn cael ei dwysáu pan fydd nodweddion penodol yn cael eu cyfuno (boed hynny mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig neu nodweddion eraill fel cefndir economaidd-gymdeithasol neu leoliad daearyddol). Rydym eisoes yn casglu data am ryw ac oedran ac felly rydym yn gallu rhoi cipolwg ar brofiad menywod hŷn – er enghraifft.
- aa. Fel rhan o'n Hadolygiad pum mlynedd, roedd ein hymgyngorwyr a gomisiynwyd gennym *Included* wedi argymhell y dylai ymchwil yn y dyfodol “gymryd agwedd croestoriadol i sicrhau bod yr heriau sy'n deillio o gategorïau hunaniaeth cymhleth yn cael eu deall. Gall casglu data croestoriadol, yn ei dro, helpu i ddatblygu strategaethau cynhwysiant targed sy'n seiliedig ar wybodaeth well.”
- bb. Ein nod yw dechrau casglu data trawstoriadol¹⁹. Fodd bynnag, gan fod y cwmpas ar gyfer data trawstoriadol yn fawr, byddem yn croesawu safbwyntiau ynghylch pa drawstoriadau data sy'n debygol o daflu goleuni ar anfantais sy'n cael ei dwysáu a rwystrau posibl i gynrychiolaeth lawn.

Cwestiwn 8

8.a Ydych chi'n credu y dylai Ofcom gasglu data trawstoriadol?

8.b Os ydych, sut dylem ni ofyn y cwestiwn hwn er mwyn ein helpu i adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?

8.c Os ydych chi'n ddarlledwr neu'n sefydliad casglu data arall, rhowch wybodaeth am ba ddata trawstoriadol rydych chi'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn eich sefydliad.

¹⁹ Yn y ddogfen hon rydym yn defnyddio'r term 'trawstoriadol' yn hytrach na 'chroestoriadol' i osgoi dryswch gan ein bod yn gwybod y gellir defnyddio 'croestoriadol' yn gulach i gyfeirio at ddim ond croestoriad o nodweddion penodol

Adolygu cysondeb a chasglu data

Ailwerthuso ein Meincnodau

- cc. Drwy gydol yr Adolygiad pum mlynedd, roeddem wedi cymharu data gweithlu darlledwyr â meincnodau perthnasol yn y DU. Yn gyffredinol, mae'r meincnodau'n ddata cyfatebol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol mewn perthynas â marchnad lafur y DU (ar gyfer rhyw, hil ac ethnigrwydd, anabledd ac oedran).
- dd. Fodd bynnag, gwnaethom dynnu sylw yn yr Adolygiad pum mlynedd at yr angen posibl i ailwerthuso'r meincnodau rydym yn eu defnyddio, er mwyn asesu amrywiaeth gweithluoedd darlledwyr yn gywir. Er enghraifft, fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith bod gan lawer o'r prif ddarlledwyr bresenoldeb cryf mewn dinasoedd mawr, fel Llundain a Manceinion, lle mae poblogaethau lleiafrifoedd ethnig yn fwy na'r meincnod o 12% ar gyfer y DU gyfan, sef 35% a 31% yn y drefn honno. Rydym hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw hi'n hawdd cael gafael ar ddata mae modd ei gymharu ar draws y DU ar gyfer rhai nodweddion, fel cefndir economaidd-gymdeithasol.
- ee. Byddem yn croesawu safbwyntiau ynghylch a fyddai'n well i Ofcom feincnodi unrhyw ran o'i ddata presennol mewn ffordd wahanol. Ar gyfer y meincnodau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, edrychwch ar adran 7 y ddogfen [Methodoleg](#) a ddaeth gyda'n Hadolygiad pum mlynedd.

Cwestiwn 9

9.a Ydych chi'n credu y dylai Ofcom newid ac ehangu'r meincnodau mae'n eu defnyddio?

9.b Os ydych, sut ydych chi'n meddwl y dylem ni newid ein meincnodau er mwyn ein helpu i adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?

9.c Os ydych chi'n ddarlledwr neu'n gorff arall sy'n casglu data, rhwch wybodaeth am y ffordd rydych chi'n feincnodi data ar hyn o bryd (yn enwedig mewn perthynas â chefnidir economaidd-gymdeithasol ac amrywiaeth mewn rhanbarthau daearyddol gwanhaol).

Elfennau eraill i'w hystyried

- a. Ac ystyried cwmpas eang y Cais hwn am Fewnbwn, hoffem roi'r cyfle i chi roi eich barn ar agweddau ar ein harferion casglu data nad ydym wedi canolbwyntio arnynt. Er enghraifft, nid ydym wedi gofyn yn benodol am oedran a chrefydd neu gred, sy'n ddwy nodwedd warchodedig yr ydym hefyd yn gofyn amdanynt yn ein holiadur gweithlu. Byddem yn croesawu mewnbwn gan unrhyw un sy'n credu y byddai'r ddau faes hyn hefyd yn elwa o gwestiynau wedi'u diweddarau (gan gynnwys y derminoleg a ddefnyddir yn yr atebion posibl i'r holiadur).

Cwestiwn 10

Oes gennych chi unrhyw farn am agweddau eraill ar arferion casglu data nad ydym wedi'u hystyried yn y Cais hwn am Fewnbwn?

Atodiad 1. Arolwg gweithlu Amrywiaeth mewn Darlledu 2021

Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r arolwg gweithlu amrywiaeth mewn darlledu [ar gael ar ein gwefan.](#)

Atodiad 2. Arolwg gweithlu radio amrywiaeth mewn darlledu 2021

Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r arolwg gweithlu radio amrywiaeth mewn darlledu [ar gael ar ein gwefan.](#)

Atodiad 3. Ymateb i'r Cais hwn am Fewnbwn

Sut mae ymateb

A3.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 19 Mai 2022

A3.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr ar ein gwefan:
<https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/call-for-inputs-updating-ofcoms-workforce-data-collection/> Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A3.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol arall, a fydddech chi cystal â'i anfon dros e-bost i diversityinbroadcast@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r [ddalen gyflwyno](#).

A3.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt:

Natalie Fox
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

A3.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio iaith Arwyddion Prydain:

- anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad fod yn fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVDs; neu
- gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle cynnal arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A3.6 Rydym yn croesawu ymatebion Cymraeg ac ni fyddant yn cael eu trin yn llai ffafriol nag ymatebion Saesneg.

A3.7 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A3.8 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymateb a gyflwynwyd i ni dros yr e-bost.

A3.9 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

- A3.10 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad 6. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.
- A3.10 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i diversityinbroadcast@ofcom.org.uk

Cyfrinachedd

- A3.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori gau. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi ymatebion ar [wefan Ofcom](#) yn rheolaidd yn ystod ac ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori.
- A3.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid inni olygu'ch ymateb.
- A3.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.
- A3.14 Er mwyn cyflawni ein dyletswydd cyn datgelu, gallwn rannu copi o'ch ymateb ag adran berthnasol yn y llywodraeth cyn i ni ei gyhoeddi ar ein gwefan. Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ar gyfer materion post, a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ar gyfer pob mater arall.
- A3.15 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein [Telerau Defnyddio](#).

Y camau nesaf

- A3.16 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn ystod Hydref 2022.
- A3.17 Gallwch chi [gofrestru i gael diweddariadau post](#) i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom.

Prosesau ymgynghori Ofcom

- A3.18 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 4.
- A3.19 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges drwy'r e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.
- A3.20 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

Atodiad 4. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

Cyn yr ymgynghoriad

A4.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgysiau anffurfiol â phobl a chyrrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

Yn ystod yr ymgynghoriad

A4.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A4.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda throsolwg o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni.

A4.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A4.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd efallai â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu ag ef os oes gennych farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.

A4.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

Ar ôl yr ymgynghoriad

A4.7 Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant yn dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

Atodiad 5. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na chafwyd y ddogfen drwy e-bost):

CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb sydd yn eich barn chi yn gyfrinachol, gan roi'ch rhesymau am hynny

Dim

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd

Ymateb cyfan

Sefydliad

Rhan o'r ymateb

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? _____

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu'ch sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodedb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

DATGANIAD

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi ymatebion yn rheolaidd yn ystod ac ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori. Os yw'ch ymateb yn un nad yw'n gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi papur)

Atodiad 6. Cwestiynau'r ymgynghoriad

Amcan Ofcom wrth newid ei holiadur yw canfod tangynrychiolaeth ym maes darlledu a thynnu sylw at y rhwystrau sy'n atal pobl rhag symud ymlaen yn y diwydiant.

Cwestiwn 1

- 1a) Ydych chi'n credu y dylai Ofcom newid y ffordd mae'n gofyn am ryw a rhywedd?
- 1b) Os ydych chi, sut ydych chi'n meddwl y dylem ni newid yr holiadur mewn perthynas â rhyw a rhywedd er mwyn adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?
- 1c) Os ydych chi'n ddarlledwr neu'n gorff arall sy'n casglu data, rhowch wybodaeth am y ffordd rydych chi'n gofyn cwestiynau am ryw a rhywedd ar hyn o bryd.

Cwestiwn 2

- 2a) Ydych chi'n credu y dylai Ofcom newid y ffordd mae'n gofyn am rywioldeb?
- 2b) Os ydych chi, sut ydych chi'n meddwl y dylem ni newid yr holiadur mewn perthynas â chyfeiriadedd rhywiol er mwyn adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?
- 2c) Os ydych chi'n ddarlledwr neu'n gorff arall sy'n casglu data, rhowch wybodaeth am y ffordd rydych chi'n gofyn cwestiynau am gyfeiriadedd rhywiol ar hyn o bryd.

Cwestiwn 3

- 3a) Ydych chi'n credu y dylai Ofcom newid y ffordd mae'n gofyn am hil ac ethnigrwydd?
- 3b) Os ydych chi, sut ydych chi'n meddwl y dylem ni newid yr holiadur mewn perthynas â hil ac ethnigrwydd er mwyn adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?
- 3c) Os ydych chi'n ddarlledwr neu'n gorff arall sy'n casglu data, rhowch wybodaeth am y ffordd rydych chi'n gofyn cwestiynau am hil ac ethnigrwydd.

Cwestiwn 4

- 4a) Ydych chi'n credu y dylai Ofcom newid y ffordd mae'n holi am anabledd?
- 4b) Os ydych chi, sut ydych chi'n meddwl y dylem ni newid yr holiadur mewn perthynas ag anabledd er mwyn adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?
- 4c) Os ydych chi'n ddarlledwr neu'n gorff arall sy'n casglu data, rhowch wybodaeth am y ffordd rydych chi'n gofyn cwestiynau am anabledd ar hyn o bryd.

Cwestiwn 5

- 5a) Ydych chi'n credu y dylai Ofcom newid y ffordd mae'n gofyn am wybodaeth am gefnir economaidd-gymdeithasol?
- 5b) Os ydych chi, sut ydych chi'n meddwl y dylem ni newid yr holiadur mewn perthynas â chefnidir economaidd-gymdeithasol er mwyn adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?
- 5c) Os ydych chi'n ddarlledwr neu'n gorff arall sy'n casglu data, rhowch wybodaeth am y ffordd rydych chi'n gofyn cwestiynau am gefnudir economaidd-gymdeithasol.

Cwestiwn 6

- 6a) Ydych chi'n credu y dylai Ofcom newid y ffordd mae'n gofyn am brofiad rheoli a dyrchafiadau?
- 6b) Os ydych chi, sut ydych chi'n meddwl y dylem ni newid yr holiadur mewn perthynas â phrofiad rheoli a dyrchafiadau er mwyn adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?
- 6c) Ydych chi'n credu y dylai Ofcom newid y grwpiau swyddogaethau swyddi yn yr holiadur gweithlu?
- 6d) Os ydych chi, sut ydych chi'n meddwl y dylem ni newid ein holiadur mewn perthynas â grwpiau swyddogaethau swyddi er mwyn ein helpu i adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?
- 6e) Os ydych chi'n ddarlledwr neu'n gorff arall sy'n casglu data, rhowch wybodaeth am y ffordd rydych chi'n dosbarthu mathau o swyddi / lefel swyddi / dyrchafiadau ar hyn o bryd.

Cwestiwn 7

- 7a) A ddylai Ofcom gasglu data amrywiaeth yn ôl gwlad a rhanbarth?
- 7b) Os dylai, sut ydych chi'n meddwl y dylem ni ofyn y cwestiwn hwn er mwyn ein helpu i adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?
- 7c) Os ydych chi'n ddarlledwr, rhowch wybodaeth am y data rydych chi'n ei gasglu ar hyn o bryd am leoliad daearyddol eich gweithlu.

Cwestiwn 8

- 8a) Ydych chi'n credu y dylai Ofcom gasglu data trawstoriadol?

8b) Os ydych, sut dylem ni ofyn y cwestiwn hwn er mwyn ein helpu i adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?

8c) Os ydych chi'n ddarlledwr neu'n sefydliad casglu data arall, rhowch wybodaeth am ba ddata trawstoriadol rydych chi'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn eich sefydliad.

Cwestiwn 9

9a) Ydych chi'n credu y dylai Ofcom newid ac ehangu'r meincnodau mae'n eu defnyddio?

9b) Os ydych, sut ydych chi'n meddwl y dylem ni newid ein meincnodau er mwyn ein helpu i adnabod tangynrychiolaeth yn well ym maes darlledu a thynnu sylw at unrhyw rwystrau rhag symud ymlaen yn y diwydiant?

9c) Os ydych chi'n ddarlledwr neu'n gorff arall sy'n casglu data, rhowch wybodaeth am y ffordd rydych chi'n meincnodi data ar hyn o bryd (yn enwedig mewn perthynas â chefnidir economaidd-gymdeithasol ac amrywiaeth mewn rhanbarthau daearyddol gwanhaol).

Cwestiwn 10

Oes gennych chi unrhyw farn am agweddau eraill ar arferion casglu data nad ydym wedi'u hystyried yn y Cais hwn am Fewnbwn?